

SIARTER

DAD-DREFEDIGAETHU

CASGLIAD

AMGUEDDFA CYMRU

national
museum
wales
amgueddfa
cymru

Mae casgliadau amgueddfeydd yn aml wedi'u gwreiddio mewn trefedigaethu a hiliaeth. Nid yw Amgueddfa Cymru yn eithriad.

Mae'r siarter hon yn pennu dull Amgueddfa Cymru o ddad-drefedigaethu ei chasgliad. Mae'n amlygu 6 maes allweddol lle byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau ar draws Cymru, a thu hwnt, i ddad-drefedigaethu'r casgliad ac anelu at ddad-drefedigaethu'r Amgueddfa ei hun.

Does dim un diffiniad penodol o ystyr dad-drefedigaethu. Mae'n broses hir a chymhleth fydd yn esblygu wrth i ni ei hastudio'n fanylach. Byddwn yn gweithio drwy'r heriau gyda'n partneriaid cymunedol ac yn defnyddio'r casgliad i herio anghyfiawnder hanesyddol a phresennol. Bydd hyn yn ein helpu i ystyried a newid hen ddulliau o weithio.

Bydd y broses ddad-drefedigaethu yn greiddiol i ddatblygiad casgliad Amgueddfa Cymru. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb, ym mhob gwyddor casgliadau a phob adran yn yr Amgueddfa.

Mae ymgysylltu â chymunedau perthnasol yn greiddiol i'r gwaith.

GYDA'N GILYDD, BYDDWN YN:

- ✓ diffinio dad-drefedigaethu casgliad Amgueddfa Cymru
- ✓ gwella mynediad i gymunedau a'u hymgysylltu â'r casgliadau
- ✓ datblygu mwy nag un persbectif er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ystyr dyfnach
- ✓ datblygu perthnasau sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad bywyd cymunedau
- ✓ llywio defnydd y casgliadau i'r dyfodol

Bydd dad-drefedigaethu casgliad Amgueddfa Cymru yn canolbwyntio ar 6 maes allweddol:

1. Ymchwil gyda'r gymuned

Rhaglen o ymchwil gyda'r gymuned fydd yn amlygu casgliadau gyda chyswllt at drais gwladychu a masnach gaethweision cefnfor Iwerydd. Byddwn yn edrych ar sut y daeth y gwrthrychau yma i feddiant yr Amgueddfa a cheisio deall eu hystyr dyfnach.

Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r cyswllt rhwng sefydlu'r Amgueddfa, trefedigaethu a chaethwasiaeth.

2. Cyd-guradu deunydd

Mae dad-drefedigaethu'r casgliad yn golygu rhoi gwybodaeth glir i gynulleidfaoedd ar hanes gwrthrychau a sut gawsant eu casglu. Byddwn yn newid cynnwys, tòn a therminoleg yr hanes trefedigaethol gaiff ei adlewyrchu yn ein casgliadau.

Rhaid i labeli fod yn onest, ac wedi'u datblygu gydag aelodau o'r gymuned.

Bydd casgliadau gyda chyswllt at drais trefedigaethu a masnach gaethweision cefnfor Iwerydd yn cael eu labelu felly ar bob platfform. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi sut y cafodd gwrthrychau eu dehongli yn y gorffennol.

Dylai'r cofnod o hanes gwrthrych gael ei archifo, nid eu ddileu.

3. Adnabod casgliadau hiliol

Mae rhai gwrthrychau yn y casgliad yn hiliol, a byddant yn cael eu hamlygu a'u labelu felly. Mae hyn yn cynnwys y Gwyddorau Naturiol. Byddwn yn adolygu'r casgliad hwn am gyfeiriadau gwyddonol hiliol, a sicrhau bod esboniad i'r deunyddiau a ddefnyddiwn mewn arddangosfeydd, digwyddiadau a chyhoeddiadau.

Rydym yn ymrwymo i olygu ac ailysgrifennu labeli a theitlau gweithiau sy'n cynnwys geiriau o natur hiliol, neu ddisgrifiadau anaddas o bobl Ddu. Byddwn yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn barhaus i sicrhau ei bod yn dilyn yr arferion gorau cyfredol.

4. Penderfynu ar gaffaeliadau

Bydd Amgueddfa Cymru yn gwrandao ar amrywiaeth ehangach o leisiau wrth benderfynu beth i'w gasglu. Rydym am gynyddu cynrychiolaeth a dad-drefedigaethu'r casgliadau wrth iddynt gyrraedd yr Amgueddfa.

Byddwn yn sicrhau y bydd yr un gofal yn cael ei ddangos wrth asesu ein casgliadau presennol. Byddwn yn flaengar wrth ffurfio partneriaethau gyda chymunedau tarddiad, a gwir berchnogion gwrthrychau er mwyn trafod y potensial o wneud yn iawn a dychwelyd, wedi'i seilio ar gydweithio a dealltwriaeth.

5. Mynediad i Gasgliadau

Gall prosesau catalogio gyfyngu ar y dulliau gwahanol y gall pobl ymgysylltu â gwrthrychau.

Byddwn yn datblygu dulliau newydd i chwilio'r casgliadau sy'n berthnasol i fywyd bob dydd, er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib. Drwy ganfod dulliau digidol newydd o weithio, gallwn gasglu termau chwilio newydd ar gyfer casgliadau.

6. Digidol

Ein nod yw digideiddio pob gwrthrych sy'n rhan o ddad-drefedigaethu casgliadau Amgueddfa Cymru.

Gall casgliadau wedi'u digideiddio gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau perthnasol ledled y byd. Bydd **Casgliadau Ar-lein** yn cefnogi'r gwaith o greu a rhannu dehongliadau newydd, eu hystyron a'u perthnasedd. Gall straeon lleol gysylltu ag eraill ledled y byd i herio arwahanu gwahanol gymunedau.

METHODOLEG

- Bydd sampl o wrthrychau o bob gwyddor casgliadau yn cael eu defnyddio i beilota dulliau o weithio gyda chymunedau perthnasol ac i gefnogi datblygiad ymchwil gyda'r gymuned.
- Bydd gweithdai gyda staff ac aelodau o'r gymuned yn sicrhau dealltwriaeth well o'r broses, a pam fod Amgueddfa Cymru yn ymrwymo i'r gwaith hwn.
- Byddwn yn datblygu ffyrdd digidol ac analog o weithio i sicrhau y gall cynifer o bobl â phosib gyfrannu.
- Bydd y broses beilot yn cael ei defnyddio i ddatblygu templed i ddad-drefedigaethu casgliad Amgueddfa Cymru ar draws y 6 maes a dulliau gweithio sy'n cefnogi'r broses.
- Dylai diffiniadau a meini prawf adolygu'r casgliad gael eu datblygu gyda'n partneriaid cymunedol a chymunedau perthnasol fel bod ein gwaith yn gyson ar draws y casgliad.
- Rhaid i ni fod yn onest am yr hyn allwn ni ei gyflawni, a'r hyn allwn ni ddim. Er enghraifft, efallai nad yw hi'n bosib cadarnhau os oes gan rai gwrthrychau gysylltiad â chaethwasiaeth.